Adolygiad o Achos Difrifol – Person Ifanc I

Terfynol Crynodeb Gweithredol: 27ain Ebrill 2009

Adolygiad o Achos Difrifol – Person Ifanc I

Terfynol Crynodeb Gweithredol: 27ain Ebrill 2009

Rhagair

Dyma grynodeb gweithredol adolygiad o achos difrifol bu Bwrdd Diogelu Plant Lleol (BDPLl) Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn ymgymryd ag ef yn achos marwolaeth Person Ifanc I.

Daethpwyd o hyd i Berson Ifanc I yn crogi ar 6ed Ionawr 2008 ac yntau'n 17 mlwydd oed. Daeth Person Ifanc I i fyw gyda'i fam-gu a'i dad-cu yn Rhondda Cynon Taf yn ystod 2007. Cyn hynny, roedd Person Ifanc I yn byw gyda'i fam yng Ngogledd Cymru ers sawl blwyddyn. Roedd un achos blaenorol, hysbys o hunan-niweidio fis Hydref 2007. Cofnododd y Crwner reithfarn naratif.

Gweithdrefnau adolygu achos

Sefydlodd BDPLl RhCT banel adolygu achos difrifol i gadw golwg ar weithdrefnau adolygu achos a phennu awdur annibynnol i baratoi adroddiad ar gamau gweithredu'r asiantaethau fu'n gweithio gyda Pherson Ifanc I.

Nod yr adolygiad oedd pennu pa wersi byddai modd eu dysgu gyda golwg ar y ffordd bu swyddogion lleol yn y maes ac Asiantaethau yn cydweithio yn yr achos yma, a chan hynny, cyflwyno argymhellion. Y cyfnod rhwng mis Medi 2001 ac Ionawr 2008 ydy cyfnod yr adolygiad.

Dyma'r Asiantaethau fu'n cyfrannu i'r adolygiad o achos difrifol:

- Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf
- Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf
- Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes Rhondda Cynon Taf
- Heddlu De Cymru
- Gyrfa Cymru
- Gwasanaethau i Blant Cyngor Sir Ynys Môn
- Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Ynys Môn.

Roedd aelodau o deulu Person Ifanc I yn rhan o bethau ac wedi cyfrannu i'r adolygiad yn ogystal.

Panel adolygu achos difrifol fu'n gyfrifol am baratoi cylch gorchwyl yr adolygiad ac roedd yn cynnwys edrych ar y meysydd allweddol canlynol:

- Asesiadau asiantaethau o anghenion Person Ifanc I, gan gynnwys ei farn ef

- Rhannu gwybodaeth, asesiadau a dadansoddiadau rhwng asiantaethau
- Cyfathrebu gwybodaeth, yn enwedig o gwmpas pwyntiau trosglwyddo
- Ymwybyddiaeth swyddogion yn y maes o'r sawl a oedd yn byw yn y cartref
- P'un ai bod modd rhagweld marwolaeth Person Ifanc I?
- P'un ai bod achos o gamddefnyddio sylweddau yn y tymor hir?

Crynodeb o'r achos

Roedd Person Ifanc I yn byw gyda'i rieni a'i frawd hŷn yng Ngogledd Cymru yn dilyn ei eni fis Ebrill 1990. Pan wahanodd ei rieni oddeutu Ebrill 1993 symudodd Person Ifanc I, ei fam a'i frodyr i Rondda Cynon Taf. Aeth Person Ifanc I yn ôl i Ogledd Cymru fis Tachwedd 2003 gyda'i fam a'i frodyr a chymar newydd ei fam.

Adeg ei farwolaeth, roedd Person Ifanc I yn byw gyda'i fam-gu a'i dad-cu yn Rhondda Cynon Taf ar ôl dod yn ôl i'r ardal yn ystod Haf 2007.

Ar y cychwyn, roedd adroddiadau ysgol Person Ifanc I yn rhai cadarnhaol ac roedd aelodau o staff ei ysgol uwchradd yn Rhondda Cynon Taf yn ei ddisgrifio'n fachgen dymunol heb unrhyw broblemau emosiynol neu ymddygiadol o bwys. Serch hynny, roedd rhai achosion o ymddwyn yn swnllyd ac aflonyddgar yn yr ystafell ddosbarth.

Ar ôl symud yn ôl i fyw yng Ngogledd Cymru, gwaethygu wnaeth ymddygiad Person Ifanc I yn yr ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yno. Roedd Person Ifanc I yn ymddwyn mewn ffordd aflonyddgar ynghyd ag ymosodiadau geiriol o bryd i'w gilydd, fodd bynnag, doedd ei ymddygiad ddim yn cael ei weld yn broblem sylweddol am fod modd i'r ysgol ei reoli. Roedd ganddo gofnodion presenoldeb da yn yr ysgol. Chafodd Person Ifanc I mo'i gyfeirio ar gyfer sylw gwasanaeth cynnal ymddygiad yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer gwaith asesu a/neu gymorth ychwanegol.

Gadawodd Person Ifanc I yr ysgol yn ystod Haf 2006 ar gyrraedd oedran gadael yr ysgol ac yn dilyn dod i ben â'i arholiadau TGAU.

Symudodd Person Ifanc I i Rondda Cynon Taf ar ei ben ei hun yn ystod Haf 2006 a dod i fyw gyda'i fam-gu a'i dad-cu cyn symud yn ôl i'r Gogledd i fyw gyda'i fam fis Tachwedd 2006. Mae union ddyddiadau symudiadau Person Ifanc I yn anhysbys a doedd dim modd i'r adolygiad o achos difrifol i bennu union ddyddiadau ychwaith.

Ar ddychwelyd i Ogledd Cymru, dywedodd Person Ifanc I wrth Gwmni Gyrfa Cymru doedd ei fam ddim eisiau iddo fyw yn y cartref dim rhagor, ac felly, symudodd allan a chysgu mewn tai cyfeillion neu ar y traeth, wrth geisio dod o hyd i lety. Mae tystiolaeth i ddangos bod Person Ifanc I wedi cysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaeth Tai, ond does dim tystiolaeth ar gael i ddangos bod asesiad o'i anghenion, yntau'n berson ifanc, wedi'i gynnal ac na chafodd ei anghenion am lety mo'u diwallu.

Daeth Person Ifanc I yn ôl i Rondda Cynon Taf yn ystod Haf 2007, a dod i fyw gyda'i fam-gu a'i dad-cu unwaith yn rhagor. Mae union ddyddiad y symud yn anhysbys, ond yn fuan wedi hynny, dechreuodd Person Ifanc I mewn perthynas â'i gariad a bu iddi hi feichiogi. Nododd aelodau o deulu Person Ifanc I fod sawl ffrae wedi bod rhwng Person Ifanc I a'i gariad a'i fod yn poeni ynglŷn â goblygiadau cyfreithiol posibl ar ôl rhyw dan oed.

Ar 16eg Hydref 2007, aeth Person Ifanc I i Uned Argyfwng a Damweiniau Brys yn Rhondda Cynon Taf yng nghwmni'i dad-cu, gan honni'i fod wedi cymryd 9 o dabledi Augmentin (gwrthfiotig), oherwydd ei fod eisiau lladd ei hunan yn dilyn ffrae gyda'i gariad. Yn ogystal â hynny, disgrifiodd Person Ifanc I ei fod yn teimlo'n hunanladdol ers pythefnos a nodi'i fod yn byw gyda'i dad-cu oherwydd ei fod yn ddigartref, yn ddi-waith a bod ganddo broblemau ariannol. Yn ogystal â hynny, bu Person Ifanc I yn honni'i fod yn ysmygu pedwar cwdyn o heroin y diwrnod a'i fod yn defnyddio canabis ac yn yfed dau lager bob dydd.

Atgyfeiriwyd Person Ifanc I ar gyfer sylw Carfan Datrys Argyfwng (CDA), sy'n rhan o Wasanaethau Iechyd y Meddwl i Oedolion, ac sydd â'i chanolfan yn yr ysbyty ar gyfer dod i ben ag asesiad o risg. Daeth yr asesiad o risg i'r casgliad fod Person Ifanc I mewn perygl isel o hunanleiddiad a'i atgyfeirio ar gyfer sylw asiantaeth cymorth cyffuriau lleol a Meddyg Teulu am gymorth ac asesiadau pellach.

Ar 6ed Ionawr 2008, daethpwyd o hyd i Berson Ifanc I yn crogi yn ystafell wely cartref ei gariad.

Cynhaliwyd cwest y crwner ar 4ydd Mehefin 2008. Cofnododd y crwner reithfarn naratif, a bu Person Ifanc I farw o ganlyniad i roi rhwymyn am ei wddf a chwympo yn ei flaen. Dangosodd adroddiad tocsicoleg bod gan Berson Ifanc I lefelau o alcohol yn is na lefelau yfed a gyrru ac olion bychain o gocên yn ei waed.

Roedd Person Ifanc I wedi dod i gysylltiad â'r Heddlu yn y De a'r Gogledd. Cafodd y digwyddiadau yma i'w disgrifio'n fân ddigwyddiadau a fyddai heb fod yn achos o bryder ac sy'n ymddangos i fod heb unrhyw gysylltiad â'i farwolaeth.

Daeth Person Ifanc I i gysylltiad â Chwmni Gyrfa Cymru (yn y De a'r Gogledd), ac wrth geisio'i orau glas i ddod o hyd i hyfforddiant a swydd, bu'n anodd iddo i ddod o hyd i swydd go iawn a'i chadw.

Dadansoddiad a gwersi a ddysgwyd

Mae'r adolygiad wedi dod ar draws rhai enghreifftiau o arfer dda, mewn perthynas â:

- Safon asesiad CDA

- Ymroddiad aelodau o Staff Uned Damweiniau ac Achosion Brys i ofalu dod i ben ag asesiad o risg Person Ifanc I, sydd i'w gymeradwyo'n fawr iawn.

    - Yn ogystal â hynny, ac yn ystod gwaith adolygiad o achos difrifol, sefydlwyd cylch aml-asiantaeth a oedd yn cynnwys nifer o bartneriaethau i ddatblygu strategaeth hunan-niweidio a hunanleiddiad ar gyfer Rhondda Cynon Taf,

Mae'r adolygiad, fodd bynnag, wedi datgelu sawl achos o bryder.

Yn benodol:

- Doedd y Gwasanaeth Iechyd Ysgol yn Rhondda Cynon Taf na Gogledd Cymru wedi cael gwybod bod Person Ifanc I yn symud o un ardal i'r llall.

- Er bod Person Ifanc I wedi'i wahodd i asesiad meddygol gan Feddyg Teulu ar y diwrnod canlynol o dderbyn atgyfeiriad gan CDA, does dim cofnodion i ddangos fod gweithredu pellach ar ôl iddo fethu'r apwyntiad.

- Does dim tystiolaeth i ddangos bod CDA wedi cyfeirio Person Ifanc I ar gyfer sylw gwasanaeth cymorth cyffuriau. Does dim copi o lythyr i'w gael ar gofnodion CDA a does gan wasanaeth cymorth cyffuriau ddim cofnod o dderbyn atgyfeiriad. Ac felly, yn unol ag argymhellion CDA, doedd Person Ifanc I heb weld gwasanaeth cymorth cyffuriau.

- Does dim tystiolaeth i ddangos bod trosglwyddo ffeil Person Ifanc I rhwng ei ysgolion uwchradd.

- Mae hi'n ymddangos fod dim cofnod o'r digwyddiadau a'r pryderon i gyd sy'n ymwneud â Pherson Ifanc I wedi'u cofnodi ar ffeiliau'r ysgol.

Yn ogystal â hynny, mae'r adolygiad wedi pennu'r cyfleoedd canlynol a gollwyd i gydweithio'n fwy effeithiol â Pherson Ifanc I:

- Fis Mawrth 2007, cysylltodd canolfan llety i'r digartref â Charfan Gwasanaethau Cymdeithasol ar Ddyletswydd yng Ngogledd Cymru i roi gwybod bod Person Ifanc I yn cysgu dan y sêr. Ni fu asesu anghenion Person Ifanc I o ganlyniad. Doedd dim cysylltu â Pherson Ifanc I ar unwaith, ond ar ôl cysylltu ag ef roedd e wedi symud yn ei flaen oherwydd mai dim ond llety ar gyfer pobl dros 18 oed roedd y ganolfan yn ei gynnig.

- Yn ystod 2007, roedd Person Ifanc I wedi bod mewn cysylltiad â Chwmni Gyrfa Cymru yn aml, ond does dim tystiolaeth i awgrymu iddo gael ei atgyfeirio ar gyfer sylw Gwasanaethau Tai a/neu Wasanaethau i Blant lleol i roi gwybod iddyn nhw ynglŷn â'r sefyllfa.

Roedd yr asiantaethau hynny a oedd yn rhoi cymorth i Berson Ifanc I wedi pennu'r angen am lety, a oedd yn ystyried ei hun yn ddigartref am gyfnodau hir rhwng Mehefin 2006 ac adeg ei farwolaeth. Serch hynny, does dim tystiolaeth i awgrymu fod yr asiantaethau hynny wedi cyfeirio Person Ifanc I ar gyfer sylw darparwyr llety.

Yn bwysicach oll, fodd bynnag, mae hi'n ymddangos bod methiant yr Asiantaethau i gydnabod Person Ifanc I yn "blentyn mewn angen" a chyfeirio'i achos ar gyfer Gwasanaethau i Blant am asesiad. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod systemau anghyson i'w cael ar draws Asiantaethau, ac sy'n peri dryswch. Hwyrach bod hyn yn dangos nad yw datblygiadau yn y gwasanaeth wedi cadw ar y blaen i anghenion newidiol byth-a-hefyd pobl ifainc rhwng 16 a 25 oed yn gyffredinol: hynny yw pe bai Person Ifanc I wedi'i asesu yn "blentyn mewn angen", mae'n anodd gwybod a fyddai modd i'r gwasanaethau presennol sydd ar gael roi'r math o gymorth a fyddai wedi gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd. Gyda golwg ar blant a phobl ifainc, mae cydnabod y mater yma'n lleol a chomisiynodd Fframwaith adroddiad "Iechyd Emosiynol a Chamddefnyddio Cyffuriau ar gyfer pobl ifainc rhwng 16 a 25 oed" sy'n pennu bylchau yn y ddarpariaeth ac sy'n gwneud argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â'r sefyllfa.

Casgliadau

Oherwydd diffyg cysylltu ag Asiantaethau allweddol, mae casglu gwybodaeth sy'n ymwneud â bywyd Person Ifanc I wedi bod yn waith anodd. Mae rhai bylchau yn dal i fod yn yr wybodaeth, yn enwedig rhwng Ebrill 2007 a Gorffennaf 2007, lle does neb yn gwybod lle'r oedd Person Ifanc I, er gwaetha'r ffaith y dylai Person Ifanc I fod wedi cael ei ystyried yn blentyn mewn angen.

Serch hynny, dydy'r adolygiad yma ddim yn dod i'r casgliad fod y diffygion hynny a bennwyd wedi cael effaith ar ddiwedd bywyd trist Person Ifanc I. Roedd asesiad o risg, a gafodd ei gwblhau 10 wythnos cyn marwolaeth Person Ifanc I, yn nodi bod y perygl o hunanleiddiad yn isel ar y pryd. Mae adroddiadau tocsicoleg adeg ei farwolaeth yn dangos roedd gan Berson Ifanc I lefelau o alcohol islaw lefel yfed a gyrru ac olion bychain o gocên yn ei waed. Awgryma hyn doedd Person Ifanc I ddim wedi bod yn camddefnyddio sylweddau yn y tymor hir neu'n ddefnyddiwr trwm.

Mae marwolaeth Person Ifanc I yn ymddangos yn drasiedi, ni fyddai unrhyw gamau gweithredu neu ymyrraeth gan unrhyw rai o'r Asiantaethau yma gallu fod wedi rhagweld neu rwystro trasiedi o'r fath rhag digwydd.

Argymhellion

Roedd rhai Asiantaethau heb chwarae unrhyw ran o bwys ym mywyd Person Ifanc I yn ystod y cyfnod dan sylw, ac felly, doedd dim gofyn iddyn nhw i gyflwyno unrhyw argymhellion penodol, sy'n ymwneud â Pherson Ifanc I, yn

rhan o adolygiadau rheoli Asiantaethau unigol. Fodd bynnag, mae rhai ohonyn nhw wedi gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu mewnol amddiffynnol, yn enwedig, yr angen i wella trefnau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng, ac o fewn, Asiantaethau. Mae panel Adolygu Achos Difrifol wedi cymeradwyo'r argymhellion yma.

Mae'r adroddiad arolwg wedi gwneud argymhellion ychwanegol fel a ganlyn:

- Dylai BDPLl gyfrannu at waith dod i ben â Strategaeth "Osgoi Achosion o Hunan-Niweidio a Hunanleiddiad" yn fater o flaenoriaeth a rhoi systemau yn eu lle i fonitro materion gweithredu mewn ffordd effeithiol.

- Dylai BDPLl gyfrannu at waith paratoi rhaglen a hyfforddiant strategaeth yn gefn i Strategaeth "Osgoi Achosion o Hunan-Niweidio a Hunanleiddiad"

- Dylai Fframwaith gyflwyno adroddiad ar gynnydd materion gweithredu'r argymhellion hynny sy wedi'u cynnwys yn rhan o adroddiad gwaith ymchwil "Iechyd Emosiynol a Chamddefnyddio Sylweddau ar gyfer pobl ifainc rhwng 16 a 25 oed" ar gyfer sylw'r BDPLl.

- Dylai BDPLl feithrin cysylltiadau gwaith agos gyda Gyrfa Cymru ac sy'n cynnwys adolygiad o'u swyddogaeth parthed rhoi cymorth i bobl ifainc a'u diogelu. Dylai Gyrfa Cymru gyflwyno adroddiad o'r canfyddiadau a chynllun gweithredu ar gyfer gwella ar gyfer sylw'r BDPLl.

- Dylai CDA Gwasanaeth Cymdeithasol RhCT fwrw golwg dros weithdrefnau rhoi cymorth i bobl ifainc rhwng 16 a 18 oed a'u diogelu. Dylai CDA Gogledd Cymru yntau ystyried cynnal adolygiad tebyg Cyflwyno adroddiad o ganfyddiadau'r adolygiad a chynllun gweithredu RhCT ar gyfer gwella at sylw'r BDPLl.

- Dylai BDPLl feithrin cysylltiadau gwaith agos gydag Asiantaethau Tai ac sy'n cynnwys adolygiad o'u swyddogaeth parthed rhoi cymorth i bobl ifainc rhwng 16 a 18 oed a'u diogelu. Cyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau a chynllun gweithredu ar gyfer gwella ar gyfer sylw'r BDPLl.

- Dylai Cadeirydd BDPLl ysgrifennu at Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi gwybod iddyn nhw ynglŷn â'r gwersi a ddysgwyd parthed rhannu adroddiadau ysgol ar unwaith pan fo plant yn symud o un awdurdod lleol i'r llall.

- Dylai Cadeirydd BDPLl ysgrifennu at BDPLl a Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol yng Ngogledd Cymru i'w hysbysu nhw o ganfyddiadau ac argymhellion adolygiad o achos difrifol.